

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 12ed o Fehefin 2018

1. **Preseanol:** Ffion Jones (Cadair) – Nantlle; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Barry Bracegirdle, Nerys Williams, Justin Davies, Erfyl Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen – Talysarn; Craig ab Iago (tan ddiwedd eitem 5) –Cynghorwyr Sir / **Ymddiheuriadau:** Sharon Wynne Jones, Dafydd Jones – Talysarn; Dylan Herbert – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys – Cynghorydd Sir.

2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir:** OP Huws – parcio.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mai.** OP Huws yn datgan cywirdeb a Hefina Roberts yn eilio.

4. **Cyfethol Aelod Newydd Penygroes.** Rhoddwyd enw Iona Wyn Jones ger bron y Cyngor ar gyfer sedd wag Penygroes – pawb yn gytun i gyfethol Iona yn aelod newydd i'r Cyngor.

5. **Cynghorwyr Sir – Adroddiadau (Gwasanaeth Ieuenctid JH)** Cafwyd diweddariad gan Craig ab Iago. Cyngor Gwynedd wedi cael cronfa o arian i'w roi tuag at nawdd y Cynghorau Cymuned ar gyfer cynnal gwasanaethau ieuenctid. Craig yn dweud fod y bobl ifanc yn arwain ar syniadau clybiau. Cyngor Cymuned yn datgan fod *angen mwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen i Ddyffryn Nantlle a cynnig cynnal cyfarfod arbennig gyda swyddogion Cyngor Gwynedd (Nia Morris)*. Angen gwybod, os yn cyfrannu, a all y Cyngor Cymuned osod amodau? Mae angen gwell darlun na sydd ar gael ar hyn o bryd; Craig yn rhoi diweddariad i'r Cynghorwyr ar y loriau sy'n tramwyo i Taldrwst; diweddariad ar sefyllfa parcio Llanllyfni (OP Huws yn datgan diddordeb); syniad banc bwyd; cyfarfod Delwedd Dyffryn Nantlle.

Darllenwyd yr adroddiad a yrrwyd i'r Cadeirydd gan Judith Humphreys – cais i dorri Cwtin (ar y rhaglen dorri). Diolch i'r Cynghorwyr sir.

6. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Materion Llanllyfni (Gwyndaf) heb eu cofnodi. Angen gweithredu arnynt.

7. **Taflen Ariannol a Chyllid ac Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol.** Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol – a gweithredwyd ar y ddau bwynt ag amlygwyd. Cyflwynwyd yr asesiad risg i'r Cyngor ac fe'i gymeradwywyd. Cofrestr asedau (dogfen 'Datganiad Ategol') i'w ddiweddarau a'i gofnodi mewn llyfr yn hytrach nag yn electroneg.

8. **Cyfarfodydd is-bwyllgor.** Mynwentydd – cynhaliwyd cyfarfod is-bwyllgor mynwentydd yn ystod y mis – darllenwyd y cofnodion. Trafodwyd cynyddu prisiadu claddu, ac argymhellwyd cynyddu prisiau claddu lleol o 5% a chynyddu prisiau ddim yn lleol o 10% - *penderfynwyd* y byddai'r prisiau yn codi o'r 1af o Awst 2018. Trafodwyd estyniad MacPelah a phenderfynwyd cynnal cyfarfod safle / Estyniad MacPelah – cyfarfod safle wedi ei gynnal yn y fynwent- darllenwyd yr wybodaeth ddiweddaraf, a chafwyd adroddiad gan OP Huws – *penderfyniad* y Cyngor yn unfrydol oedd cymeradwyo symud ymlaen gyda'r brosiect, a phenodi YGC yn asiant i'r Cyngor ar gyfer y gwaith. Cadarnhad wedi ei dderbyn gan borwr y cae y bydd yn cael ei wagio o fewn mis i ddyddiad y Rhybudd – y Clerc i gysylltu er mwyn cadarnhau lleoliad arfaethedig y giat newydd, cadarnhau mai'r ffermwr fydd yn gosod y postiau ac mai'r Cyngor Cymuned fydd yn cyflenwi'r giat a chadarnhad pryd fydd y ffens sydd wedi ei chodi yn cael ei thynnu/ Delwedd Dyffryn Nantlle – Craig wedi adrodd yn ol, ac yn ogystal fe fynychwyd y cyfarfod gan y Clerc. Cyfarfod buddiol iawn, gyda thrafodaethau ar faterion megis gawasanaeth bws, gwasanaeth casglu ysbwriel ayyb – rhannwyd y cofnodion i'r Cynghorwyr / GDPR ac unrhyw gyfarfod arall – y Clerc wedi mynychu cwrs a gynhaliwyd gan Cyngor Gwynedd – awdit i'w wneud o unrhyw ddata bersonol sydd yn cael ei gadw gan y Cyngor Cymuned.

9. **Cynllunio.** C18/0410/22/LL – Chwarel Ty Mawr West – cais i amrywio amodau ar ganiatad cynllunio er mwyn ymestyn cyfnod cychwyn gweithredu datblygiad mewnforio a gosod pridd anadweithiol aat ddibenion adfer y safle – 5 mlynedd ychwanegol - CANIATAU. C18/0354/22/LL – Pant Eithinog, Penygroes – codi estyniad ochr - CANIATAU.

10. **Gohebiaeth.**

***Cyngor Gwynedd:**

*Ymaebion i Gwynion – llwybr 31 – canllaw'r bont wedi ei adnewyddu; Priffyrdd; Arwydd Llanllyfni – ymateb yn ol gan fod gwrthwynebiadau i leoliad newydd arwydd y pentref. Gofyn paham nad ymgynghorwyd gyda'r Cyngor Cymuned cyn ei symud. Pryderon y Cyngor – ochr anghywir o'r ffordd. Unwaith yn unig mae wedi cael ei ddirodi. Mae mewn lleoliad sydd yn fwy o darged i blant ei falu. Wedi

symud y ffin wrth symud yr arwydd. Gofyn i symud yr arwydd yn ol i ble'r oedd o cynt – safle gwreiddiol yr arwydd wedi bodoli ers dros 60 o flynyddoedd.

*Parc Gwledig Glynllifon – diweddariad. Darllenwyd y llythyr. Dymuniad y Cyngor Cymuned yw cael tryloywder, a gofyn yn garedig wrth Cyngor Gwynedd bethyw eu cynllunio neu gynigion amlinellol hyd yma. Sefydlu pryd fydd yr ymgynghori yn cymryd lle? Bod disgwyl i Gyngor Gwynedd ystyried y gymuned leol, a bod pryder am adnoddau fel y llwybrau yn y parc sydd yn cael eu defnyddio ers canrifoedd.

*Cais Deddf Trwyddedu – Uned Brosesu/Siop Pant Du, Penygroes. Cymeradwyo.

*Canllaw Cynllunio Atodol – drafft ymgynghorol Cymysgedd Tai / Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid. Er gwybodaeth.

*Rhybudd Cau Ffordd – Llanllyfni a Talysarn. Y gwaith wedi ei gwblhau.

*Gweithgareddau Pobl Ifanc Dyffryn Nantlle. Trafodaethau yn parhau. Gwahoddiad i'r swyddogion i gyfarfod arbennig.

***Arall**

*Cyfarfod Ardal Un Llais – 12/6/18, a chofnodion y cyfarfod blaenorol. Er gwybodaeth.

* Un Llais – Rhannwyd yr ohebiaeth i'r Cynghorwyr yn ystod y mis – dim sylwadau : Llesiant Cenedlaethol ; GDPR; Datganiad Tawel Fan ; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ; Swyddfa Archwilio – Rhaglen Blaenoriaethu ; Breuder gofal Meddygon Teulu ; Bwletin Un Llais ; Heneiddio yn dda yng Nghymru ; Newyddlen Draenio Cynladwy ; Ymchwiliad i Amrywiaeth Llywodraeth Leol ; Diwygio Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd ; Digwyddiad Plant, Pobl Ifanc a Democratiaeth.

*Deall nodweddion bregus a gwydnwch i ansicrwydd mewn cymunedau gwledig – er gwybodaeth.

*Ymweliad mynwent St Rhedyw – Treftadaeth Disylw. Darllenwyd yr ebon.

*Betsi Cadwaladr – 14/5. Er gwybodaeth.

*Cylchgrawn Clerks and Councils Direct. Ar y bwrdd.

*Chwarae Cymru. Ar y bwrdd.

11. Presenoldeb Crynodeb o bresenoldeb Cynghorwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Un Cynghorydd wedi methu dros 6 mis yn olynol – y Clerc i gysylltu i ofyn os oes diddordeb parhau mewn bod ar y Cyngor, gan fod colli 6 mis heb i'r Cyngor gymeradwyo'r rheswm yn golygu fod sedd yn dod yn wag.

12. Cofeb R Williams Parry – llawer o wybodaeth a dogfennau yn y llyfrgell yng Nghaerdydd – hanes y tir, hanes y gymunrodd. Bydd angen creu grwp cychwynol i drafod beth fyddai angen ei gynnwys mewn cais arian loteri. Justin yn fodlon bod yn y grwp. Gofyn wrth Sharon fel aelod o Talysarn, a Ffion.

13. Tir Trem yr Wyddfa Dim i'w adrodd.

14. Parcio Llanllyfni 24/5 – OP Huws yn datgan diddordeb. Eitem Cynghorwyr Sir (Craig ab Iago) – dim datrasiad.

15. Materion Pentrefi: To lloches bws Llanllyfni – llechi wedi disgyn – ***penderfynwyd*** gofyn i'r contractwyr drwsio; Chwyn yn o giat yr Eglwys at y drws – cadarnhawyd fod y fynwent wedi cael ei chwistrellu gyda chwynladdwr, ac y dylai'r chwyn farw; Chwyn am ddiogelwch ffordd wrth y troead i'r dde am Nasareth o'r ffordd osgoi – cerbydau yn dod dros yr 'hump' ar gyflymder, ac yn pasio ar y llinellau zig-zag hefyd – pryder pan fo tractoriaid ac ati yn troi; Arwydd parcio yn y gilfan ar y ffordd osgoi yn Nasareth ar waelod y polyn ac yn fler. Talysarn Oriau agor y post yn anghyson – creu anhwylostod i'r henoed, sydd yn ddibynnol ar y gwasanaeth – cysylltu efo'r Swyddfa Bost. Penygroes Cwm Dulyn – carcass dafad yn y dwr. Cysylltu efo Dwr Cymru; Llinellau melyn wedi eu rhoi yn ol wrth y maes parcio tu ol i garejis Thompson (Ffordd y Sir) yn llai, a cheir yn parcio yno eto a chreu rhwystr. Nantlle Llawer o dyllau ar lon Talymignedd; Adroddwyd fod ras Talymignedd wedi bod yn llwyddiant.

16. Llwybrau a Mynwentydd. Materion yn ymwed a'r heddlu. Arwyddion mynwentydd – trafodwyd y prisiau a dderbyniwyd, a ***penderfynwyd*** ar gyflenwr i wneud y gwaith (Designer Signs) – y Clerc i drefnu. Prisiau Claddu – cynyddu o 1af o Awst (eitem 8); Trafodwyd y gofod sydd ar ol yn Gorphwysfa gan bod pryder am y niferoedd o feddi sydd yn cael eu gwerthu yn flynyddol. Holi faint o amser mae 'compulsory purchase' yn ei gymryd i gael ei weithredu, ac hefyd y Clerc i hysbysu'r Cynghorwyr faint o feddi sydd wedi mynd dros y blynyddoedd diwethaf. ***Penderfynwyd*** adolygu'r sefyllfa mewn 6 mis (cyfarfod Rhagfyr); Problem yn codi wrth waredu gwastraff mynwentydd – er bod arwyddion 'Gwastraff Gwyrdd yn Unig', mae plastigion yn parhau i gael eu gadael ymysg y gwastraff gwyrdd. Ymgynghori efo Llanwnda i weld beth maen nhwy'n ei i waredu plastig.

17. Materion ariannol

*Anfonebau: A Johnson – derbynebau - Derbyn; A Johnson – Ffon/Rhyngwyrdd - £25 Derbyn.

*Ceisiadau am arian. Bobath. Trafod Chwefror. Derbyniwyd cais am nawdd gan Seindorf Frenhinol Dyffryn Nantlle am nawdd tuag at gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol –arian wedi ei glustnodi i gyfrannu £50 ar gyfer ceisiadau o'r fath. ***Penderfynwyd*** cyfrannu £50.